**Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus**

**CYNGOR SIR Y FFLINT**

**Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Trosedd a Phlismona 2014**

**Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus Rheoli Cŵn a Baw Cŵn Cyngor Sir y Fflint 2017**

Rhoddir rhybudd drwy hyn bod Cyngor Sir y Fflint ("y Cyngor") wrth arfer ei rymoedd o dan Adrannau 59 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 ("y Ddeddf") ac o dan yr holl rymoedd galluogi eraill, yn gwneud y gorchymyn canlynol a elwir yn:

**Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus Rheoli Cŵn a Baw Cŵn Cyngor Sir y Fflint 2017**

1. Mae'r Gorchymyn hwn yn berthnasol i'r mannau cyhoeddus a ddisgrifir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir mewn coch ar y cynlluniau sydd ynghlwm - ("yr ardaloedd gwaharddedig").

2. Mae'r Cyngor yn fodlon bod y ddau amod isod wedi cael eu bodloni, hynny yw:-

    (i) bod gweithgareddau sydd wedi'u cynnal yn yr ardaloedd gyfyngedig fel y disgrifir isod wedi cael effaith andwyol ar ansawdd bywyd pobl yn yr ardal, neu mae'n debygol y bydd y gweithgareddau hyn yn cael eu cynnal yn y man cyhoeddus ac y byddant yn cael effaith o'r fath;

    (ii) bod effaith, neu effaith debygol y gweithgareddau yn, neu'n debygol o fod, o natur barhaus neu barhaol, a'i fod, neu'n debygol o fod yn gwneud y gweithgaredd yn afresymol, ac yn cyfiawnhau'r cyfyngiadau a osodwyd gan y Gorchymyn.

3. Fe ddaw'r Gorchymyn i rym ar **20 Hydref 2017** ac fe ddaw i ben **20 Hydref 2020** oni bai y caiff ei ymestyn gan Orchmynion pellach o dan bwerau statudol y Cyngor.

***YN Y GORCHYMYN HWN***

4. Effaith y Gorchymyn yw gosod y gwaharddiadau a/neu ofynion canlynol yn yr ardaloedd cyfyngedig drwy'r amser:

**(i) Cŵn yn Baeddu'r Tir**

a) Os bydd ci yn ysgarthu ar unrhyw adeg ar dir o fewn yr ardal gyfyngedig sydd wedi'i nodi yn Atodlen 1 y Gorchymyn hwn, a bod unigolyn sy'n gyfrifol am y ci ar y pryd yn methu â symud y baw ci oddi ar y tir ar unwaith, bydd yr unigolyn hwnnw yn euog o drosedd oni bai -

(i) Bod gan y person hwnnw esgus rhesymol dros beidio â gwneud hynny; neu
(ii) Bod y perchennog/meddiannwr neu berson arall neu awdurdod sydd â rheolaeth dros y tir wedi cydsynio (yn gyffredinol neu'n benodol) i'r unigolyn hwnnw beidio â gwneud hynny; neu
(iii) Bod yr unigolyn yn ddarostyngedig i'r eithriadau a restrir yn Atodlen 1

b) At ddibenion yr erthygl hon:-

(i) Cymerir bod unigolyn y mae ci fel rheol yn ei feddiant â chyfrifoldeb dros y ci hwnnw ar unrhyw adeg oni bai rhyw unigolyn arall â chyfrifoldeb dros y ci hwnnw ar yr adeg honno.

**(ii) Dull o bigo baw ci i fyny**

a) Rhaid i berson sydd yng ngofal ci ar dir yn yr ardal gyfyngedig a fanylir yn Atodlen 2 sicrhau fod ganddynt ddull priodol o bigo baw ci i fyny oni bai -

(i) Bod gan y person hwnnw esgus rhesymol dros beidio â gwneud hynny; neu
(ii) Bod y perchennog, meddiannwr neu berson arall neu awdurdod sydd â rheolaeth dros y tir wedi cydsynio (yn gyffredinol neu'n benodol) i'r person wneud hynny; neu
(iii) Bod y person yn ddarostyngedig i'r eithriadau a restrir yn Atodlen 2

b) Fe gydymffurfir â'r rhwymedigaeth yn Erthygl 4 (ii) (a) os bydd y person sydd yng ngofal y ci yn dangos dull priodol o bigo'r baw ci os gofynnir iddynt wneud hynny gan gwnstabl neu swyddog awdurdodedig.

c) Yn yr erthygl hon, ystyr "swyddog awdurdodedig" yw unigolyn sydd wedi'i awdurdodi yn ysgrifenedig gan y Cyngor at ddibenion rhoi cyfarwyddiadau o dan yr erthygl hon.

**(iii) Gwahardd Cŵn**

a) Mae unigolyn sydd yng ngofal ci yn cael ei wahardd rhag cymryd y ci, neu adael i'r ci grwydro neu aros ar dir o fewn yr ardal gyfyngedig y cyfeirir ato yn Atodlen 3 y Gorchymyn hwn oni bai -

(i) Bod gan y person hwnnw esgus resymol dros beidio â gwneud hynny; neu
(ii) Bod y perchennog, meddiannwr neu berson arall neu awdurdod sydd â rheolaeth dros y tir wedi cydsynio (yn gyffredinol neu'n benodol) i'r person wneud hynny; neu
(iii) Bod y person yn ddarostyngedig i'r eithriadau a restrir yn Atodlen 3

b) At ddibenion yr erthygl hon:-

(i) Cymerir bod unigolyn y mae ci fel rheol yn ei feddiant â chyfrifoldeb dros y ci hwnnw ar unrhyw adeg oni bai rhyw unigolyn arall â chyfrifoldeb dros y ci hwnnw yr adeg honno. .

**(iv) Cŵn ar dennyn trwy gyfarwyddyd**

a) Rhaid i unrhyw berson sydd yng ngofal ci ar unrhyw adeg roi'r ci ar dennyn a'i gadw ar dennyn pan gyfarwyddir nhw i wneud hynny yn yr ardal gyfyngedig a fanylir yn Atodlen 4, oni bai -

(i) Bod gan y person hwnnw esgus resymol dros beidio â gwneud hynny; neu

(ii) Bod y perchennog, meddiannwr neu berson arall neu awdurdod sydd â rheolaeth dros y tir wedi cydsynio (yn gyffredinol neu'n benodol) i'r person hwnnw beidio â gwneud hynny; neu

b) At ddibenion yr erthygl hon:-

(i) Cymerir bod unigolyn y mae ci fel rheol ei feddiant â chyfrifoldeb dros y ci hwnnw ar unrhyw adeg oni bai rhyw unigolyn arall â chyfrifoldeb dros y ci hwnnw ar yr adeg honno;

(ii) Ni chaiff cwnstabl neu swyddog awdurdodedig y Cyngor roi cyfarwyddyd dan yr erthygl hon i roi ci ar dennyn a'i gadw arno oni fo'r cyfryw lyffethair yn rhesymol angenrheidiol i atal niwsans neu ymddygiad gan y ci sydd yn debygol o achosi blinder neu aflonyddwch i unrhyw unigolyn arall ar unrhyw dir y mae'r Erthygl hwn yn gymwys iddo neu o gyffroi unrhyw anifail neu unrhyw aderyn neu o aflonyddu arnynt.

(iii) Yn yr erthygl hon, ystyr "swyddog awdurdodedig y Cyngor " yw unigolyn sydd wedi'i awdurdodi yn ysgrifenedig gan y Cyngor at ddibenion rhoi cyfarwyddiadau o dan yr erthygl hon.

**(v) Cŵn ar dennyn mewn mynwentydd**

a) Rhaid i unrhyw unigolyn sydd yng ngofal ci ar unrhyw adeg roi'r ci ar dennyn a'i gadw ar dennyn yn yr ardal gyfyngedig a fanylir yn Atodlen 5, oni bai -

(i) Bod gan yr unigolyn hwnnw esgus resymol dros beidio â gwneud hynny; neu

(ii) Bod y perchennog, meddiannwr neu berson arall neu awdurdod sydd â rheolaeth dros y tir wedi cydsynio (yn gyffredinol neu'n benodol) i'r unigolyn hwnnw beidio â gwneud hynny;

b) At ddibenion yr erthygl hon:-

(i) cymerir bod unigolyn y mae ci fel rheol yn ei feddiant â chyfrifoldeb dros y ci hwnnw ar unrhyw adeg oni bai rhyw unigolyn arall â chyfrifoldeb dros y ci hwnnw yr adeg honno.

**5. COSB**

i) Bydd unrhyw unigolyn sydd methu â chydymffurfio ag unrhyw un o'r gofynion neu waharddiadau yn Erthyglau 4 (i), (ii), (iii), (iv) a (v) yn y Gorchymyn hwn heb esgus resymol yn agored o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol (£1000 yn bresennol).

**6. Cosb Benodedig**

Gall cwnstabl neu berson awdurdodedig o'r Cyngor roi rhybudd cosb benodedig i unrhyw un y mae ef neu hi yn credu sydd wedi troseddu. Bydd rhaid i unigolyn sy'n troseddu dalu'r gosb benodedig o £75 o fewn 14 diwrnod, neu fe fydd achos llys yn dechrau.

**7. Apeliadau**

Gall unigolyn â buddiant herio'r Gorchymyn hwn yn yr Uchel Lys o fewn 6 wythnos ar ôl iddo gael ei lunio. Unigolyn â buddiant ydi rhywun sy'n byw, yn gweithio neu'n ymweld yn rheolaidd â'r ardal gyfyngedig. Mae hyn yn golygu mai dim ond yr unigolion a fydd yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y cyfyngiadau sydd â'r pŵer i herio. Mae'r hawl i herio hefyd yn bodoli pan fydd gorchymyn yn cael ei amrywio gan y Cyngor.

Gall unigolion â buddiant herio dilysrwydd y Gorchymyn ar ddwy sail: nad oedd gan y Cyngor y pŵer i wneud y Gorchymyn neu i gynnwys gwaharddiadau neu ofynion penodol; neu na chydymffurfiwyd ag un o ofynion y ddeddfwriaeth, er enghraifft ymgynghori.

Pan wneir cais, gall yr Uchel Lys benderfynu atal gweithrediad y Gorchymyn yn rhannol neu'n gyfan gwbl, yn dibynnu ar benderfyniad y Llys. Mae gan yr Uchel Lys y gallu i gefnogi, dileu neu amrywio'r Gorchymyn.

Dyddiedig y ....10....... dydd o ....HYDREF....................2017

SÊL GYFFREDIN CYNGOR SIR Y FFLINT
Wedi'i osod ym mhresenoldeb :-

Chair ..................................................................................

Chief Officer Governance

16784

## ***ARDALOEDD CYFYNGEDIG***

***ATODLEN 1***

1) Pob man cyhoeddus o fewn ardal gyfan Cyngor Sir y Fflint fel y dangosir yng Nghynllun 1.

Ystyr "man cyhoeddus" yn y gorchymyn hwn yw unrhyw le y gall y cyhoedd neu unrhyw ran o'r cyhoedd gael mynediad, ar ôl talu neu fel arall, fel hawl neu yn sgil caniatâd penodol neu ymhlyg;

2) Eithriadau

Does dim yn yr Atodlen hon sy'n gymwys i unigolyn sydd:-

a) wedi'u cofrestru'n ddall mewn cofrestr a luniwyd o dan Adran 29 Deddf Cymorth Gwladol 1948; neu
b) ag anabledd sydd yn effeithio ar symudedd, medrusrwydd a chydlyniad corfforol yr unigolyn neu eu gallu i godi, cario neu fel arall symud gwrthrychau bob dydd, mewn cysylltiad â chi a hyfforddwyd gan elusen a ragnodwyd ac y mae'r unigolyn yn dibynnu ar y ci hwnnw am gymorth.

3) Mae pob un o'r canlynol yn "elusennau a ragnodwyd":-

i) Dogs for the Disabled (elusen gofrestredig rhif 700454);
ii) Support Dogs (elusen gofrestredig rhif 1088281);
iii) Canine Partners for Independence (elusen gofrestredig rhif 803680)
iv) Canine Dogs (elusen gofrestredig rhif 803630)
v) Dog Aid (elusen gofrestredig rhif 098169)
vi) Dogs for Good (elusen gofrestredig rhif 10929620)
vii) Guide Dogs(elusen gofrestredig rhif 209617)
viii) Hearing Dogs for Deaf People (elusen gofrestredig rhif 293358)
ix) Medical Detection Dogs (elusen gofrestredig rhif 1124533)
x) Support Dogs (elusen gofrestredig rhif 1088281)
xi) The Seeing Dogs Alliance (elusen gofrestredig rhif 1156790)

***ATODLEN 2***

4) Pob man cyhoeddus o fewn ardal gyfan Cyngor Sir y Fflint fel y dangosir yng Nghynllun 1.

Ystyr "man cyhoeddus" yn y gorchymyn hwn yw unrhyw le y gall y cyhoedd neu ran o'r cyhoedd ei ddefnyddio, ar ôl talu neu fel arall, fel hawl neu yn rhinwedd caniatâd penodol neu ymhlyg;

5) Eithriadau

Does dim yn yr Atodlen hon sy'n gymwys i unigolyn sydd:-

c) wedi'u cofrestru'n ddall mewn cofrestr a luniwyd o dan Adran 29 Deddf Cymorth Gwladol 1948; neu

d) sydd ag anabledd sydd yn effeithio ar symudedd, medrusrwydd a chydlyniad corfforol yr unigolyn neu eu gallu i godi, cario neu fel arall symud gwrthrychau bob dydd, mewn cysylltiad â chi a hyfforddwyd gan elusen a ragnodwyd ac y mae'r unigolyn yn dibynnu ar y ci hwnnw am gymorth.

6) Mae pob un o'r canlynol yn "elusennau a ragnodwyd":-

i) Dogs for the Disabled (elusen gofrestredig rhif 700454);
ii) Support Dogs (elusen gofrestredig rhif 1088281);
iii) Canine Partners for Independence (elusen gofrestredig rhif 803680)
iv) Canine Dogs (elusen gofrestredig rhif 803630)
v) Dog Aid (elusen gofrestredig rhif 098169)
vi) Dogs for Good (elusen gofrestredig rhif 10929620)
vii) Guide Dogs(elusen gofrestredig rhif 209617)
viii) Hearing Dogs for Deaf People (elusen gofrestredig rhif 293358)
ix) Medical Detection Dogs (elusen gofrestredig rhif 1124533)
x) Support Dogs (elusen gofrestredig rhif 1088281)
xi) The Seeing Dogs Alliance (elusen gofrestredig rhif 1156790)

***ATODLEN 3***

1) Pob man cyhoeddus o fewn ardal gyfan Cyngor Sir y Fflint fel y dangosir yng Nghynllun 1 sy'n gysylltiedig ag:

(i) Ardaloedd offer chwarae plant
(ii) Pob maes chwaraeon a farciwyd mewn ardaloedd chwarae
(iii) Ardaloedd chwarae mewn ardaloedd hamdden ffurfiol gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i lawntiau bowlio a chyrtiau tenis
(iv) Pob ardal o fewn tir ysgolion

Ystyr "man cyhoeddus" yn y gorchymyn hwn ydi unrhyw le y gall y cyhoedd neu ran o'r cyhoedd ei ddefnyddio, ar ôl talu neu fel arall, fel hawl neu yn rhinwedd caniatâd penodol neu ymhlyg;

2) Eithriadau

Does dim yn yr Atodlen hon sy'n gymwys i unigolyn sydd:-

(a) wedi'u cofrestru'n ddall mewn cofrestr a luniwyd o dan Adran 29 Deddf Cymorth Gwladol 1948; neu
(b) yn fyddar, mewn cysylltiad â chi a hyfforddwyd gan Hearing Dogs for Deaf People (elusen gofrestredig rhif 293358) ac mae'r unigolyn yn ddibynnol ar y ci am gymorth (rhaid bod yn amlwg bod y ci yn gi cymorth);
(c) sydd ag anabledd sydd yn effeithio ar symudedd, medrusrwydd a chydlyniad corfforol yr unigolyn neu eu gallu i godi, cario neu fel arall symud gwrthrychau bob dydd, mewn cysylltiad â chi a hyfforddwyd gan elusen a ragnodwyd ac y mae'r unigolyn yn dibynnu ar y ci hwnnw am gymorth (rhaid bod yn amlwg bod y ci yn gi cymorth).

3) Mae pob un o'r canlynol yn "elusennau a ragnodwyd":-

i) Dogs for the Disabled (elusen gofrestredig rhif 700454);
ii) Support Dogs (elusen gofrestredig rhif 1088281);
iii) Canine Partners for Independence (elusen gofrestredig rhif 803680)
iv) Canine Dogs (elusen gofrestredig rhif 803630)
v) Dog Aid (elusen gofrestredig rhif 098169)
vi) Dogs for Good (elusen gofrestredig rhif 10929620)
vii) Guide Dogs(elusen gofrestredig rhif 209617)
viii) Hearing Dogs for Deaf People (elusen gofrestredig rhif 293358)
ix) Medical Detection Dogs (elusen gofrestredig rhif 1124533)
x) Support Dogs (elusen gofrestredig rhif 1088281)
xi) The Seeing Dogs Alliance (elusen gofrestredig rhif 1156790)

***ATODLEN 4***

1) Pob man cyhoeddus o fewn ardal gyfan Cyngor Sir y Fflint fel y dangosir yng Nghynllun 1

Ystyr "man cyhoeddus" yn y gorchymyn hwn yw unrhyw le y gall y cyhoedd neu ran o'r cyhoedd ei ddefnyddio, ar ôl talu neu fel arall, fel hawl neu yn rhinwedd caniatâd penodol neu ymhlyg;

2) Eithriadau

Dim

***ATODLEN 5***

1) Pob mynwent yng Nghyngor Sir y Fflint fel y nodir isod ac a ddangosir yng Nghynllun 2:

Mynwent Alexandra Road, Yr Wyddgrug

Mynwent Bagillt, Bagillt

Mynwentydd Bryn Y Grog, Yr Hôn a Hen Fynwent Yr Hôb

Mynwent Ffordd Bryn, Cei Connah

Mynwent Bwcle, Bwcle

Mynwent Cilcain

Mynwentydd Hen Ffordd Llundain, Fflint a Ffordd Llaneurgain, Y Fflint

Mynwentydd Rhif 1 a Rhif 2, Maesglas

Mynwentydd Rhif 1 a Rhif 2 Penarlâg, Penarlâg

Mynwent Treffynnon, Treffynnon

Mynwent Celstryn, Celstryn

Mynwent Rhydymwyn, Rhydymwyn


Mynwent Rhewl, Rhewl

Mynwent Treuddyn, Treuddyn

2) Eithriadau


Dim

**CYNLLUN 1**




| | | | |
|---|---|---|---|
| Sir y Fflint Flintshire | | Planning & Environment,<br>Flintshire County Council,<br>County Hall, Mold,<br>Flintshire, CH7 6NF.<br>Chief Officer: Mr Andrew Farrow | Scale 1:170,000 @ A4<br>OS Map: Stategi<br>Plotted: May 2017<br>N |

**CYNLLUN 2**




Public Spaces Protection Order
Cemeteries
Alexandra Road, Mold
Playing Field
Playing Field
Play Area
Cemetery Lodge
ALEXANDRA ROAD (FFORDD ALECSANDRA)
Cemetery
Path
Playing Field
Playing Field
Ambrose Terrace
GAS LANE (LON NWY)
Garage
Works
Gas Gov
Sir y Fflint
Flintshire
COUNTY COUNCIL
Planning & Environment,
Flintshire County Council,
County Hall, Mold,
Flintshire, CH7 6NF.
Chief Officer: Mr Andrew Farrow
Scale 1:1500 @ A4
Produced 14/11/2016
N

# Public Spaces Protection Order

## Cemeteries

## Bagillt Cemetery




Sir y Fflint Flintshire

This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings.
Licence number 100023386.
Flintshire County Council, 2016

Planning & Environment,
Flintshire County Council,
County Hall, Mold,
Flintshire, CH7 6NF.
Chief Officer: Mr Andrew Farrow

Scale 1:1250 @ A4


Produced 14/11/2016

N

## Public Spaces Protection Order

**Cemeteries**

**Bryn y Grog, Hope and Hope Old Cemeteries**




Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council

This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence number [illegible] Flintshire County Council, 2016

Planning & Environment,
Flintshire County Council,
County Hall, Mold,
Flintshire, CH7 6NF.
Chief Officer: Mr Andrew Farrow


Scale 1:2500 @ A4
Produced 14/11/2016

N

# Public Spaces Protection Order

**Cemeteries**

**Bryn Road Cemetery, Connah's Quay**




Sir y Fflint
Flintshire
County Council

This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings.
Licence number 100023386.
Flintshire County Council, 2016

Planning & Environment,
Flintshire County Council,
County Hall, Mold,
Flintshire, CH7 6NF.
Chief Officer: Mr Andrew Farrow

Scale 1:2000 @ A4


Produced 14/11/2016

N

# Public Spaces Protection Order

## Cemeteries

## Buckley Cemetery




Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council

This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence number 100023386. Flintshire County Council 2016.

Planning & Environment,
Flintshire County Council,
County Hall, Mold,
Flintshire, CH7 6NF.
Chief Officer: Mr Andrew Farrow


Scale 1:1250 @ A4
Produced 11/11/2016

N

# Public Spaces Protection Order

**Cemeteries**

**Cilcain**




Planning & Environment,
Flintshire County Council,
County Hall, Mold,
Flintshire, CH7 6NF.
Chief Officer: Mr Andrew Farrow

Scale 1:1000 @ A4


Produced 14/11/2016

N

# Public Spaces Protection Order

## Cemeteries

### Flint Old London Road and Northop Road Cemeteries



Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council

This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings.
Licence number 100023380.
Flintshire County Council, 2016

Planning & Environment,
Flintshire County Council,
County Hall, Mold,
Flintshire, CH7 6NF.
Chief Officer: Mr Andrew Farrow

Scale 1:7000 @ A4

Produced 11/11/2016

N

# Public Spaces Protection Order

## Cemeteries

## Greenfield No1 & No2 Cemeteries




Sir y Fflint
Flintshire

Planning & Environment,
Flintshire County Council,
County Hall, Mold,
Flintshire, CH7 6NF.
Chief Officer: Mr Andrew Farrow

Scale 1:1750 @ A4


Produced 11/11/2016

N

# Public Spaces Protection Order

## Cemeteries

## Hawarden No1 and No2 Cemeteries



Sir y Fflint
Flintshire

This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence number [illegible]. Flintshire County Council, 2016

Planning & Environment,
Flintshire County Council,
County Hall, Mold,
Flintshire, CH7 6NF.
Chief Officer: Mr Andrew Farrow

Scale 1:2500 @ A4


Produced 11/11/2016

N

# Public Spaces Protection Order

**Cemeteries**

**Holywell Cemetery**




This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence number [illegible] Flintshire County Council, 2016

Planning & Environment,
Flintshire County Council,
County Hall, Mold,
Flintshire, CH7 6NF.
Chief Officer: Mr Andrew Farrow

Scale 1:2000 @ A4


Produced 11/11/2016

N

# Public Spaces Protection Order

## Cemeteries

## Kelsterton Cemetery




Sir y Fflint Flintshire

Planning & Environment,
Flintshire County Council,
County Hall, Mold,
Flintshire, CH7 6NF.
Chief Officer: Mr Andrew Farrow

Scale 1:2000 @ A4


Produced 11/11/2016

N

**Public Spaces Protection Order**

**Cemeteries**

**Rhewl Cemetery**




Sir y Fflint Flintshire


[illegible] © Crown Copyright [illegible]
Flintshire County Council 2016


Planning & Environment,
Flintshire County Council,
County Hall, Mold,
Flintshire, CH7 6NF.
Chief Officer: Mr Andrew Farrow

Scale 1:1250 @ A4

Produced 10/11/2016

N




Sir y Fflint
Flintshire

Planning & Environment,
Flintshire County Council,
County Hall, Mold,
Flintshire, CH7 6NF.
Chief Officer: Mr Andrew Farrow


Scale 1:750 @ A4
Produced 14/11/2016

N

**Public Spaces Protection Order**

**Cemeteries**

**Treuddyn Cemetery**




Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council

Planning & Environment,
Flintshire County Council,
County Hall, Mold,
Flintshire, CH7 6NF.
Chief Officer: Mr Andrew Farrow

Scale 1:1000 @ A4

Produced 10/11/2016

N